

Arfarniad o Effaith Rhaglen GCAH ar Bresenoldeb ac Ymddygiad mewn Ysgolion

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2003. Gellir atgynhyrchu'r adroddiad hwn yn ei gyfanrwydd neu fesul rhan at ddibenion addysgol anfasnachol cyhyd ag y bod yr holl ddyfyniadau'n cael eu hatgynhyrchu air am air heb eu haddasu, a'ch bod yn nodi'r ffynhonnell a'r dyddiad.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW

Ffôn: 029 2044 6446

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Cynnwys Tudalen

Cyflwyniad			**1**
Adran 1	**Presenoldeb yn yr ysgol ac ymddygiad disgyblion**		**2**
Adran 2	**Polisïau a gwaith cynllunio awdurdodau addysg lleol (AALlau)**		**4**
Adran 3	**Mentrau a ariennir gan GCAH**		**8**
Adran 4	**Arfarniad o sampl o fentrau AALlau ac ysgolion**		**11**
	Ysgol A:	Gwella cymhelliant disgyblion anniddig	11
	Ysgol B:	Delio ag ymddygiad gwael	12
	Ysgol C:	Newid y cwricwlwm	14
	AALl 1:	Delio â phroblemau'n ymwneud ag ymddygiad, presenoldeb ac anfodlonrwydd mewn ffordd eang	16
	AALl 2:	Prosiectau clwstwr o ysgolion i hyrwyddo cysondeb a pharhad	19
	AALl 3:	Cynnwys rhieni disgyblion ysgol gynradd	21
Adran 5	**Casgliadau**		**23**
Adran 6	**Argymhellion**		**25**

Cyflwyniad

- Mae'r adroddiad hwn yn rhoi arfarniad o effaith mentrau, a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ar lefel ysgol ac AALl, i wella presenoldeb disgyblion yn yr ysgol a'u hymddygiad.

- Mae grantiau ar gyfer hyfforddiant a chymorth addysg (GCAH) wedi cynnwys categori ar bresenoldeb ac ymddygiad bob blwyddyn er 1999 tan heddiw. Mae hyn yn dangos y pwysigrwydd y mae'r Cynulliad yn ei roi ar wella'r ddwy elfen hon, sy'n gallu cael effaith ar ansawdd dysgu myfyrwyr a'r safonau a gyflawnir ganddynt.

- Dyrennir arian GCAH i AALlau er mwyn iddynt allu cynnig cymorth i fentrau presenoldeb ac ymddygiad ysgolion mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd ag anghenion ac amgylchiadau lleol.

- Anogir AALlau i ddefnyddio arian GCAH ar y cyd â ffynonellau ariannu eraill, ac i gynllunio'n strategol trwy ddefnyddio'r ffynonellau ariannu amrywiol hynny, er mwyn gosod a chyflawni eu targedau lleol. Mewn unrhyw arfarniad o effaith arian GCAH ar bresenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgol, mae'n bwysig cofio y gallai ffynonellau ariannu eraill hefyd fod wedi cyfrannu at welliannau a mentrau llwyddiannus.

Adran 1: Presenoldeb yn yr ysgol ac ymddygiad disgyblion

Dengys tystiolaeth o arolygiadau ddarlun cymharol gadarnhaol, yn enwedig o ran presenoldeb mewn ysgolion cynradd, ac ymddygiad mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Y testun pryder yw mai dim ond tua chwarter yr ysgolion uwchradd sydd wedi cyrraedd targed Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef presenoldeb o 92% eleni, a bod oddeutu 20% o ysgolion uwchradd ymhell o gyflawni'r targed hwn. Ceir cyswllt agos rhwng presenoldeb gwael ac anallu disgyblion i gyrraedd lefel sylfaenol o ran eu cymwysterau, megis 5 gradd A*-G ar lefel TGAU, ar ôl 11 mlynedd o addysg orfodol.

Mae lle i wella mewn oddeutu 35% o ysgolion uwchradd ac 20% o ysgolion cynradd lle mae effaith ymddygiad disgyblion ar safon eu cyflawniad yn foddhaol, yn hytrach nag yn dda neu'n well. Yn ogystal, ceir lleiafrif o ysgolion (llai na 5%) yn y ddau sector lle mae agweddau disgyblion at ddysgu yn anfoddhaol. Ym mwyafrif yr ysgolion, ceir cyfran o amharu ar lefel isel a diffyg cymryd sylw sy'n herio medrau athrawon wrth reoli dosbarth.

Ysgolion cynradd 2000-2002

- Mae'r cyfraddau presenoldeb cyffredinol yn parhau i wella.
- Roedd presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn foddhaol neu'n well mewn 95% o'r ysgolion a arolygwyd yn 2001-2002, gan gynnwys 40% lle'r oedd yn dda neu'n dda iawn.
- Mae presenoldeb yn anfoddhaol mewn oddeutu 5% o ysgolion.
- Mae bron i 90% o ysgolion yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol i gofnodi a rhoi adroddiad am bresenoldeb ac yn bodloni targedau i wella presenoldeb.
- Mae presenoldeb disgyblion yn foddhaol neu'n well mewn bron 95% o ysgolion.
- Mae nifer y rhai a gaiff eu diarddel o ysgolion cynradd yn parhau'n isel a'r rhan fwyaf ohonynt yn achosion dros dro; mae 94% o'r disgyblion a gaiff eu diarddel yn fechgyn.
- Mae ymddygiad disgyblion yn foddhaol neu'n well ym mhob ysgol ac eithrio rhai; roedd effaith ymddygiad ar safonau cyflawniad yn dda neu'n dda iawn mewn bron 80% o ysgolion.
- Mae pob ysgol gynradd a arolygwyd yn gwneud ymdrechion da i atal bwlio.

Ysgolion uwchradd 2000-2002

- Dim ond 25% o ysgolion a gyrhaeddodd darged Llywodraeth Cynulliad Cymru o sicrhau presenoldeb o 92% eleni.

- Mae canran nifer o ysgolion ychydig yn is na'r ffigwr hwn yn unig, ond mae cyfradd tuag un o bob pum ysgol lawer yn is na'r ganran hon.

- Ym mwyafrif yr ysgolion, mae presenoldeb wedi gwella ers eu harolygiad diwethaf.

- Mae prydlondeb yn foddhaol neu'n well mewn 80% o'r ysgolion a arolygwyd.

- Mae safonau ymddygiad yn foddhaol neu'n well bron yn yr holl ysgolion a arolygwyd gennym y llynedd, ac yn dda neu'n dda iawn mewn oddeutu 80% ohonynt.

- Mae agweddau disgyblion tuag at ddysgu yn foddhaol neu'n well yn yr holl ysgolion a arolygwyd, ac yn dda neu'n dda iawn mewn 64% ohonynt.

- Mae effaith ymddygiad disgyblion ar safonau eu cyflawniad yn foddhaol mewn 95% o ysgolion ac yn dda mewn 72% ohonynt.

- Mae effeithiolrwydd ysgolion wrth hyrwyddo ymddygiad da yn foddhaol neu'n well ym mhob ysgol, ac yn dda neu'n dda iawn mewn 79% ohonynt.

- Mae ymdrechion ysgolion i atal bwlio yn foddhaol neu'n well yn yr holl ysgolion, ac yn dda neu'n dda iawn mewn 92% ohonynt.

Adran 2: Polisïau a gwaith cynllunio awdurdodau addysg lleol (AALlau)

A. Cynlluniau strategol addysg

Mae'n ofynnol i AALlau gyflwyno cynlluniau strategol addysg (CSA) i Lywodraeth Cynulliad Cymru bob tair blynedd; ynghyd â chynlluniau atodol ym mhob un o'r blynyddoedd eraill. Mae mwyafrif y CSAau yn cyfeirio'n benodol at wella presenoldeb ac ymddygiad fel un o flaenoriaethau strategol allweddol pob AALl er mwyn codi safonau cyflawniad disgyblion a hyrwyddo cynhwysiad.

Mae pob CSA yn cynnwys adran i osod targedau sy'n cyfeirio, ymhlith pethau eraill, at ostwng nifer yr achosion o ddiarddel parhaol ac am gyfnod penodol. Mewn rhai AALlau, mae'r lefel sylfaenol yn gymharol uchel (er enghraifft, dros 30 achos o ddiarddel parhaol y flwyddyn), ac mewn eraill, mae nifer yr achosion o ddiarddel parhaol wedi bod yn isel (rhwng un a thri) dros nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, nid oes modd cymharu'r data bob amser oherwydd bod rhai AALlau yn cyfrif nifer yr achosion o ddiarddel, ac eraill yn cyfrif nifer y disgyblion unigol sy'n cael eu diarddel.

Mae'r adran ar osod targedau yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i AALlau ddarparu data ynghylch presenoldeb. Mae rhai AALlau yn darparu data am absenoldeb a awdurdodwyd ac absenoldeb nad awdurdodwyd gan seilio'u targedau ar y rhain, ac mae eraill yn cyfeirio'n unig at achosion o absenoldeb nad awdurdodwyd.

Ar y cyfan, mae AALlau yn ystyried grwpiau lleiafrifol (er enghraifft, plant teithwyr, a phlant y mae awdurdodau lleol yn gofalu amdanynt) wrth osod targedau'n ymwneud â phresenoldeb a diarddel, pan fo hynny'n berthnasol. Mae hwn yn ychwanegiad diweddar a gwerthfawr ym mwyafrif yr achosion, ac mae'n deillio o ofynion y CSA. Cyn 1999, nid oedd fawr o ddata, os o gwbl, wedi cael ei gasglu am y rhain a grwpiau eraill sy'n agored i niwed.

Dyma enghreifftiau o ddatblygiadau diddorol i wella presenoldeb ac ymddygiad yng nghynlluniau AALlau:

AALl 1

- ffurfio panel lleoli ar gyfer disgyblion wedi eu diarddel;
- datblygu cynlluniau gweithredu unigol i ddelio â disgyblion anniddig cyn eu diarddel, yn enwedig yng nghyfnodau allweddol 1 a 2;
- targedu cyngor a chymorth i ysgolion lle mae patrymau diarddel wedi eu nodi; a
- chanolbwyntio ar blant y gofelir amdanynt fel grŵp risg uchel.

AALl 2

- prosiect plant y gofelir amdanynt - mae tîm sy'n gweithio gyda 70 o ddisgyblion yn cynnig cymorth mewn ysgolion i ostwng nifer yr achosion o ddiarddel a gwella presenoldeb;

- prosiect sy'n canolbwyntio ar y trawsnewid o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3, ac sy'n ceisio atal bwlio;

- dosbarthu taflenni a phosteri ledled y gymuned i wneud pobl yn fwy ymwybodol o'r peryglon sy'n gysylltiedig â thriwantiaeth;

- cyflogi cynorthwywyr cymorth ymddygiad i weithio mewn ysgolion cynradd i ostwng nifer yr achosion diarddel; a

- meithrin cynorthwywyr mewn un ysgol gyfun i gynnig cymorth i ddisgyblion sy'n agored i niwed wrth iddynt drosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i 3.

AALl 3

- taflen am effaith absenoldeb a ganiateir yn cael ei dosbarthu i bob rhiant y mae canran presenoldeb ei blentyn ef neu hi yn is na 80%;

- prosiect peilot mewn un ysgol gyfun sy'n ceisio gwella presenoldeb a gostwng lefelau triwantiaeth;

- cymorth gan yr AALl i drosglwyddo disgyblion i ysgol uwchradd gyfagos dros dro, er mwyn gostwng nifer yr achosion o ddiarddel parhaol;

- polisi erlyn lle bydd achos llys os bydd presenoldeb disgybl yn gostwng yn is na 65%;

- pennu polisi profiad gwaith a fydd yn caniatáu addysg amgen briodol ddisgyblion y maent yn dangos arwyddion o aniddigrwydd ym mlwyddyn 11; a

- chynnwys tîm cynhwysiad yr ysgol wrth gynnig cymorth gydag ymddygiad a phresenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd mewn ardaloedd dan anfantais.

B. Cynlluniau cymorth ymddygiad

Mae Adran 527A Deddf Addysg 1996 yn gosod dyletswydd ar AALlau i baratoi cynllun sy'n nodi eu trefniadau ar gyfer addysgu plant sydd â thrafferthion ymddygiad. Roedd y cynlluniau cyntaf, y cyfeirir atynt fel cynlluniau cymorth ymddygiad (CCY), i gael eu cyhoeddi erbyn 31 Rhagfyr 1998. Yn ogystal, rhaid i AALlau ystyried arweiniad a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (Cylchlythyron CCC 19/98 a 3/99).

Yna, mae'n ofynnol i AALlau adolygu eu cynlluniau ar ôl y ddwy flynedd cyntaf a chyhoeddi CCY diwygiedig rhwng 1 Ionawr ac 1 Ebrill 2001. Wedi hyn, gellir cynnal adolygiadau bob tair blynedd, er y gellir cynnal adolygiadau'n amlach os oes angen, a gellir eu cysylltu ag adolygiadau eraill.

Ar y cyfan, mae'r cynlluniau cymorth ymddygiad yn cysylltu â chynlluniau eraill mewn ffordd effeithiol, megis y cynllun strategol addysg (CSA), cynllun datblygu'r blynyddoedd cynnar a chynllun gwasanaethau plant. Wrth baratoi'r cynlluniau hyn, mae adrannau addysg wedi ymgynghori'n eang â sefydliadau perthnasol eraill, megis gwasanaethau cymdeithasol, darparwyr gwasanaethau ieuenctid, cymdeithasau gwirfoddol perthnasol, timau troseddau ieuenctid, a phenaethiaid a chyrff llywodraethu.

Mae tair agwedd yn gyffredin yn y rhan fwyaf o'r CCYau:

(i) cymorth i ysgolion

Mae AALlau yn amlinellu'r cymorth a ddarperir ganddynt i ysgolion trwy gyfrwng athrawon cymorth ymddygiad, seicolegwyr addysg, athrawon anghenion addysgol arbennig, gwasanaethau lles addysg, y gwasanaeth tiwtora yn y cartref, a phan fydd hynny'n briodol, athrawon Saesneg fel iaith ychwanegol.

(ii) cymorth i ddisgyblion unigol mewn ysgolion prif ffrwd

Mae nifer o AALlau wedi ystyried sut i gynnwys rhieni a gofalwyr yn llawnach yn y strategaethau i gynnig cymorth i ddisgyblion unigol. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu cysylltiadau agos â'r cod ymarfer ar gyfer AAA a defnyddio gweithdrefnau asesu statudol mewn ffordd effeithiol.

(iii) y ddarpariaeth sydd ar gael y tu allan i ysgolion prif ffrwd

Mae AALlau hefyd yn rhoi amlinelliad o'u dulliau darparu ar gyfer disgyblion a gaiff eu haddysgu rywle heblaw yn yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys unedau cyfeirio disgyblion, gwasanaeth tiwtora yn y cartref, ac addysg ar gyfer merched yn eu harddegau sy'n feichiog neu wedi cael baban.

Yn ogystal, mae nifer o AALlau wedi cynnwys mwyafrif y strategaethau canlynol yn eu CCYau:

- ymyrryd cadarnhaol yn gynnar er mwyn cynnig cymorth i ddisgyblion sy'n dangos arwyddion trafferthion ymddygiad;
- hyfforddiant a datblygiad proffesiynol pob aelod o'r staff;
- darparu arweiniad i ysgolion ar faterion penodol;
- gwella presenoldeb trwy ymateb ar y diwrnod cyntaf;
- cyflwyno rhaglenni dysgu y tu allan i oriau ysgol;
- darparu cymorth i blant y gofelir amdanynt;
- gweithio ar y cyd â gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, ac asiantaethau eraill;
- hyfforddiant disgyblu cadarn i'r staff;
- datblygu tîm troseddau ieuenctid;
- darparu athrawon cymorth dysgu a chymorth ymddygiad;
- pan fo angen, manteisio ar ddarpariaeth y tu allan i'r sir;
- cyflwyno rhaglenni Cychwyn Cadarn i blant dan bump oed; a
- hyfforddiant i rieni.

Ar y cyfan, mae'r CSAau a'r CCYau yn rhoi sylw da i strategaethau i wella presenoldeb ac ymddygiad.

Adran 3: Mentrau a ariennir gan GCAH

Mae cyswllt cryf rhwng y blaenoriaethau allweddol a nodir yn CSAau AALlau a cheisiadau AALlau am arian GCAH - er na chyfeirir yn benodol at ffynhonnell ariannol mwyafrif y cynlluniau strategol ar y cyfan.

Yn rhaglen GCAH 2002-2003, dyma'r nod ar gyfer Maes Blaenoriaeth 5D:

'Hyrwyddo gweithredu ar lefel cymuned ac ysgol i ddelio ag anfodlonrwydd a thrafferthion ymddygiad ymhlith disgyblion, gan gynnwys gwaith aml-asiantaeth a wneir i geisio bodloni targedau a gostwng nifer yr achosion o absenoldeb a diarddel.'

Mae nifer o egwyddorion yn sail briodol i weithgareddau GCAH ym mwyafrif yr AALlau:

- yr angen i weithio ar y cyd â gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth ieuenctid, y gwasanaeth iechyd, timau troseddau ieuenctid ac asiantaethau eraill i atal aniddigrwydd ymhlith disgyblion, cynnig cymorth wrth eu hail-integreiddio a gwella lefelau presenoldeb;

- yr angen i dargedu'r ysgolion a'r disgyblion sydd yn y perygl mwyaf ac sydd â'r angen mwyaf am gymorth; a'r

- angen i gynnal cronfa ddata i gadw golwg ar dueddiadau, mesur canlyniadau, a chymharu ardaloedd ac ysgolion yn yr AALl.

Dyma'r ddwy brif elfen yng ngweithgareddau GCAH i hyrwyddo cynhwysiad a delio ag aniddigrwydd ar draws mwyafrif yr AALlau:

- rhaglenni cymorth ymddygiad; a

- darparu hyblygrwydd yn y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4.

1. Rhaglenni cymorth ymddygiad

Mae rhai AALlau yn penodi athrawon cymorth ymddygiad neu gynorthwywyr cymorth dysgu i weithio mewn ysgolion sydd â'r dasg fwyaf wrth reoli ymddygiad heriol ymhlith disgyblion. Mewn AALlau eraill, mae gweithwyr gwasanaethau ieuenctid yn ymgymryd ag ychydig o'r gwaith hwn. Prif gyfrifoldebau'r staff AALl hyn yw gweithio wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc, yn unigol neu mewn grwpiau, i sicrhau eu hymddiriedaeth i ddarparu cymorth iddynt ac i osod targedau ar gyfer gwella.

Mae arfarniadau Estyn yn dangos bod o leiaf rhai o'r rhaglenni hyn yn effeithiol iawn wrth helpu disgyblion i wynebu eu problemau a dod o hyd i ffyrdd i'w datrys. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r gwaith unigol neu'r gwaith a wneir mewn grwpiau pan fydd yn gosod targedau ar gyfer gwella rhai agweddau ar eu gwaith ysgol, eu hagwedd neu eu hymddygiad. Maent yn dysgu siarad am y cynnydd a wnaethant a'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei gyflawni eto. Agwedd bwysig ar y rhaglenni cymorth yw'r ffaith eu bod yn darparu tystysgrif i ddisgyblion unigol sydd wedi cyrraedd eu targedau.

Mae un AALl wedi nodi tair prif agwedd yn ei raglen rheoli ymddygiad. Mae athrawon mewn ysgolion yn cael hyfforddiant mewn:

- therapi briffio sy'n canolbwyntio ar atebion;
- delio ag emosiwn, ymddygiad ymosodol a dulliau diogel o atal disgyblion; a
- thechnegau rheoli dicter.

Mae AALl arall yn datblygu 'Fframwaith Ymyrryd' Birmingham, ac mae ganddo raglen dreigl i hyfforddi staff mewn disgyblu cadarn er mwyn helpu athrawon i reoli ymddygiad disgyblion. Mae'r strategaeth yn hyrwyddo amgylcheddau diogel yn y dosbarth trwy feithrin parch ar y ddwy ochr. Mae'n annog canmoliaeth ac ymddygiad cadarnhaol er mwyn meithrin dysgu effeithiol.

Mae rhai AALlau wedi defnyddio dull gweithredu ar gyfer yr ysgol gyfan sy'n arbennig o ddefnyddiol wrth ddelio â rheoli ymddygiad, lle mae pob aelod o'r staff, gan gynnwys goruchwylwyr canol dydd a nyrsys meithrin, yn cael eu hyfforddi gyda'i gilydd.

Mae angen i ran fwyaf yr AALlau weithio gyda rhieni, gofalwyr a theuluoedd y bobl ifanc dan sylw. Mewn un AALl, caiff y swyddogion lles addysg eu hyfforddi i gynnig cymorth i rieni gyda medrau bod yn rhiant. Mewn AALl arall, ffurfiwyd cynadleddau ar gyfer grwpiau teuluol. Mae'r strategaeth hon yn cynnwys yr unigolyn ifanc, ei deulu neu ei theulu, ac amrediad o asiantaethau perthnasol yn y broses o ddatblygu cynllun gweithredu lle mae anghenion yr unigolyn ifanc yn ganolog. Mae'n ceisio osgoi'r angen am ddiarddel disgybl trwy ddelio â'r broblem mewn awyrgylch lle na chaiff unrhyw un ei feio.

Mae rhan fwyaf yr AALlau yn cytuno bod ymyrryd yn gynnar yn hollbwysig wrth hyrwyddo cynhwysiad, ac felly maent yn aml yn rhoi pwyslais arbennig ar ddarparu hyfforddiant neu gymorth ar gyfer staff ysgol gynradd yn y ffordd i adnabod tangyflawni a delio ag ef.

2. Darparu hyblygrwydd yn y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4

Mae nifer o AALlau yn cynnig cymorth wrth ddatblygu cwricwlwm amgen ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sydd wedi colli diddordeb neu sydd mewn perygl o adael addysg y prif ffrwd. Darperir rhaglenni ar y cyd â choleg addysg bellach lleol yn aml, a gallant gynnwys elfen gref o brofiad gwaith.

Mae dau AALl yn datblygu rhaglenni deallusrwydd emosiynol gyda phobl ifanc sydd mewn perygl. Addysgir y sesiynau hyn y tu allan i oriau ysgol gan arbenigwyr ym maes drama a gwaith therapi. Mae swyddogion yr AALl ac ysgolion yn ystyried bod angen 'amser i ffwrdd o'r cwricwlwm' ar y disgyblion hyn i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag dysgu a sicrhau cyrhaeddiad. Mae arfarniadau Estyn yn dangos bod y rhaglenni hyn yn aml yn helpu pobl ifanc i aeddfedu, trwy ddod i delerau â'r amgylchiadau yn eu cartref a'u hysgol, a gwella'u hagweddau a'u gallu i ddysgu. Mae AALl arall yn datblygu cwricwlwm affeithiol hefyd, er na ddarperir unrhyw fanylion pellach yng nghais GCAH.

Dyma'r prif weithgareddau a gafodd eu cynnwys yn y ceisiadau am arian GCAH er mwyn gwella presenoldeb:

- cysylltu â'r cartref yn ystod y diwrnod cyntaf pan fydd disgybl yn absennol; a
- chofrestru electronig.

1. Darparwyd swyddogion cymorth presenoldeb neu gymorth gweinyddol ar gyfer rhai ysgolion wedi eu targedu mewn rhai AALlau i gysylltu â chartrefi disgyblion yn ystod eu diwrnod cyntaf o absenoldeb. Bydd y swyddogion cymorth hyn yn gweithio gyda disgyblion y mae eu presenoldeb rhwng 75% a 90% ar gyfartaledd. Mae cysylltu â'r cartref ar y diwrnod cyntaf yn strategaeth a fabwysiadwyd gan nifer o AALlau, ac mae'r canlyniadau'n dda bron bob amser.

2. Mae nifer o AALlau wedi defnyddio arian GCAH i ddarparu'r modd i ysgolion gofrestru disgyblion yn electronig. Mae'r system hon yn galluogi timau rheoli uwch i fonitro patrymau presenoldeb y rhai sy'n absennol am gyfnodau hir neu fyr. Fodd bynnag, ni ddefnyddir y system hon bob amser mor effeithiol ag y gellid.

Adran 4: Arfarniad o sampl o fentrau AALlau ac ysgolion

Ysgol A: Gwella cymhelliant disgyblion anniddig

Sut y defnyddiodd yr ysgol hon arian GCAH

Defnyddir arian GCAH i dalu am athrawon llanw a chostau cyrsiau hyfforddiant mewn swydd amrywiol. Bydd pob ysgol gynradd yn y clwstwr yn defnyddio cyllideb GCAH ar gyfer hanner diwrnod o hyfforddiant mewn swydd bob tymor, yn yr ysgol uwchradd, ar gyfer pob pennaeth cynradd ac ar gyfer staff bugeiliol o'r ysgol uwchradd ei hun. Defnyddiodd yr ysgol uwchradd arian GCAH ar y cyd ag arian o'i ffynonellau ei hun a ffynonellau eraill, er mwyn darparu pecyn o fentrau a gynlluniwyd i wella cymhelliant disgyblion. Mae'r camau a gymerwyd yn cynnwys y canlynol:

- penododd yr ysgol wyth cynorthwy-ydd cymorth dysgu (CCD) o'i chronfeydd ei hun i gynnig cymorth i ddisgyblion arbennig a dargedwyd fel rhai ag anghenion arbennig;

- mae cydlynydd cwricwlwm sy'n gweithio ym maes cynhwysiad, ynghyd â chydlynwyr ar gyfer llythrennedd/rhifedd, TG, ABCh, gyrfaoedd, data a throsglwyddo yw ffurfio tîm cymorth disgyblion yn yr ysgol;

- gwnaethpwyd trefniadau cwricwlwm amgen ar gyfer rhai disgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r cwrs yn cynnwys profiad gwaith estynedig a chyrsiau coleg perthnasol. Bydd gweithiwr ieuenctid yn darparu gwasanaeth cynghori a chymorth i'r disgyblion hynny ym mlwyddyn 10 sy'n dilyn y cwricwlwm amgen. Mae nifer o ddisgyblion blwyddyn 10 wedi goresgyn y trafferthion a gawsant gyda'u hymddygiad oherwydd eu bod yn hapus â'u cwricwlwm newydd;

- defnyddir 'Uned Cynhwysiad Mewnol' fel man i anfon disgyblion cyn eu diarddel yn ffurfiol. Yn ystod eu cyfnod yno, bydd disgyblion yn dilyn cwrs addasu ymddygiad, yn hytrach na chwblhau gwaith a osodwyd gan athrawon pwnc. Mae un athro yn gweithio yn yr uned hon yn barhaol;

- sefydlwyd cronfa ddata ymddygiad ar ôl cael arian gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Bob chwe wythnos, bydd pob athro yn cofnodi manylion am unrhyw broblemau yn ymwneud ag ymddygiad, gan gynnwys y rhai na fyddant fel arfer yn cael eu cyfeirio at bennaeth blwyddyn neu bennaeth adran. Gwneir hyn yn gyflym ac mewn ffordd syml trwy nodi saeth i fyny, saeth ar draws neu saeth i lawr wrth ymyl pob enw. Pan gesglir y wybodaeth ynghyd, gall y tîm cymorth ymddygiad nodi a thargedu disgyblion sy'n methu ac sy'n amharu llawer yn y dosbarth ar lefel isel. Yna, gall y tîm achub y blaen ar gamau disgyblu mwy difrifol;

- ceir cynllun gwobrwyo cynhwysfawr, sy'n cynnwys byrddau cyflawniad, cystadlaethau dosbarth, posteri i ysgogi cymhelliant, gwasanaethau a theithiau;

- mae'r trefniadau partneriaeth gydag asiantaethau allanol yn dda. Ceir protocol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth gyda'r heddlu; ac

- mae'r trefniadau partneriaeth gydag ysgolion cynradd yn y clwstwr yn dda. Mae'r ysgolion cynradd yn ystyried mabwysiadu'r un cynllun gwobrwyo, ac maent yn datblygu cronfa ddata debyg am ymddygiad er mwyn gallu gweld problemau'n gynnar.

Yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn

Gyda'i gilydd, mae'r camau hyn yn darparu pecyn cynhwysfawr a llwyddiannus o fesurau sydd eisoes wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i agweddau, ymddygiad, presenoldeb a chyflawniad disgyblion unigol. Mae'r mesurau hefyd yn cyfrannu at ethos mwy cynhyrchiol a chydweithredol yn yr ysgol gyfan.

Ysgol B: Delio ag ymddygiad gwael

Yn yr ysgol gynradd hon, defnyddiwyd arian GCAH yn effeithiol i ddelio â phroblemau'n ymwneud ag ymddygiad ar ddechrau cyfnod disgyblion yn yr ysgol. Yn ogystal, mae gan yr ysgol ystod o ffyrdd i ddelio ag ymddygiad gwael ac anfodlonrwydd yn ddiweddarach.

Sut y defnyddiodd yr ysgol hon arian GCAH

Defnyddiwyd arian GCAH i dalu costau staff i fynychu cwrs ar 'feithrin grwpiau' ym Mhrifysgol Llundain. Roedd arian pellach gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn darparu amser ar gyfer gwaith ychwanegol yn yr ysgol. Ar y cwrs yn Llundain, cafodd yr athrawon gyflwyniad i Broffil Boxall, system i asesu a mesur cynnydd datblygiad disgyblion unigol. Mae'r system hon yn darparu ystod manwl o feini prawf a disgrifiadau sy'n caniatáu dadansoddiad agos o broblemau unigol.

Defnyddiodd yr athrawon y system hon i asesu pob disgybl yn y dosbarth meithrin, ac yna dewisodd y chwe disgybl yr oedd angen y cymorth mwyaf arnynt ar gyfer gwaith grŵp i'w meithrin. Mae'r gwaith grŵp meithrin yn darparu'r math o brofiadau i blant y byddent yn eu cael pe baent yn cael eu magu mewn ffordd fedrus iawn gan riant amser llawn, ac mae'n ceisio gwneud iawn am yr hyn nad ydynt efallai wedi'i gael yn ystod eu magwraeth. Darparwyd gweithgareddau dyddiol ar gyfer y grŵp hwn, ynghyd â chynllun cynnydd ar gyfer pob disgybl.

Dyma rai mentrau eraill yn yr ysgol:

- Mae'r ysgol wedi defnyddio arian GCAH i dalu am gynorthwy-ydd cymorth dysgu i weithio gyda disgyblion penodol. Mae gan y cynorthwy-ydd rôl estynedig ac mae'n gweithio gyda'r athro cymorth ymddygiad (ACY), gan weithio gyda rhai disgyblion ar y tro fel arfer, am gyfnod estynedig.

- Mae'r staff wedi gwneud llawer o waith ar arddulliau dysgu, a threfnodd athrawon wythnos breswyl ar gyfer disgyblion i'w helpu i ddysgu medrau astudio.

- Mae'r cydlynydd anghenion addysgol arbennig (CAAA) wedi ffurfio system newydd i unodi achosion yn gynnar. Mae hon yn cynnwys paratoi proffil manwl o ddisgyblion unigol y gall athrawon ei gwblhau'n gyflym os byddant yn unodi problem.

- Mae Clwb Amser Rhydd yn delio â phroblemau sy'n cychwyn yn ystod yr egwyl am ginio. I bob diben, mae hwn yn glwb gemau, sy'n para 30 munud bob dydd, ar gyfer disgyblion penodol. Fe'i cynhelir mewn ystafell ddosbarth ac mae'n cynnwys cerddoriaeth, gemau bwrdd, allweddellau, pinbel, pŵl ac arlunio. Caiff pob disgybl o Flwyddyn 6 fynychu, am fod eu hymddygiad yn lleddfu ymddygiad y plant iau.

- Mae'r ysgol wedi datblygu system newydd i weini cinio i geisio dynwared y math o bryd teuluol nad yw nifer o'r disgyblion yn ei gael gartref. Rhoddir llieiniau ar y bwrdd a bydd y disgyblion yn dod â'r bwyd i'r byrddau ac yn estyn am eu bwyd eu hunain.

Yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn

Mae'r ysgol wedi cofnodi cynnydd sylweddol ymhlith y disgyblion yn yr holl elfennau a nodir gan Broffil Boxall. Mae'r chwe phlentyn wedi gwella'n sylweddol o ran yr holl feini prawf neu ran fwyaf y meini prawf rhwng mis Chwefror a mis Mehefin eleni. Mae'r mesuriadau hyn yn ymwneud â phum prif elfen ddatblygu:

- perthynas ag eraill;

- trefnu profiadau;

- arddangos ymddygiad negyddol neu ddicter;

- ymddygiad afresymegol/ymlyniad gwael; a

- pheidio â chyfranogi/hunan-ddelwedd gwael.

Mae plant sydd â phroblemau ymddygiad wedi dysgu sut i chwarae mewn ffordd waraidd. Mae rhai disgyblion sy'n hoffi bod ar eu pen eu hunain yn datblygu eu medrau cymdeithasol hefyd. Mae nifer y disgyblion sy'n dewis cael prydau ysgol wedi codi.

Ysgol C: Newid y cwricwlwm

Sut y defnyddiodd yr ysgol hon arian GCAH

Mae'r ysgol hon wedi cychwyn cynllun sy'n cynnig amrywiaeth o ddewisiadau, gan gynnwys amserlen amgen, i grwpiau penodol o fyfyrwyr. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal lle mae problemau cymdeithasol sylweddol. Mae wedi adnabod graddfa'r problemau y mae'n eu hwynebu gan gyfeirio'n arbennig at:

- bresenoldeb gwael nifer o fyfyrwyr;
- nifer fawr y myfyrwyr y mae angen cwricwlwm arbennig neu gwricwlwm amgen arnynt, neu gynlluniau i oresgyn anfodlonrwydd; a
- nifer sylweddol y myfyrwyr sydd â thrafferthion dysgu mawr, yn ogystal â'r nifer bach o fyfyrwyr nad ydynt yn gallu manteisio ar y cwricwlwm prif ffrwd yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu'r enw 'Llwybrau Hyfforddi' i nodi'r mentrau, oherwydd yr ystyriwyd bod hwn yn deitl cadarnhaol ac ystyrlon. Crëwyd tri grŵp 'Llwybrau Hyfforddi' gwahanol, gan gynnwys:

- grŵp cymorth dysgu ar gyfer Blwyddyn 10;
- grŵp Blwyddyn 10 lle mae'r presenoldeb yn wael ac yn afreolaidd; a
- grŵp Blwyddyn 11 sy'n cynnwys disgyblion y mae eu presenoldeb yn wael.

Trefnwyd ystafelloedd sylfaenol ar gyfer y ddau grŵp a oedd yn ymwneud â phresenoldeb. Roedd hyn yn galluogi'r staff i symud i'r safleoedd, yn hytrach na bod y disgyblion yn gorfod symud i wahanol ystafelloedd ar gyfer gwahanol bynciau. Mae'r dodrefn yn yr ystafelloedd sylfaenol yn dda ac yn creu amgylchedd gadarnhaol a chroesawgar i'r myfyrwyr.

Mae'r myfyrwyr dan sylw yn dilyn cwricwlwm sy'n debyg iawn i'r ddarpariaeth brif ffrwd mewn nifer o ffyrdd. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau o ran y ffordd o ddarparu'r pynciau, a'r awyrgylch a gaiff ei greu yn y sefyllfaoedd dysgu, yn golygu bod y cyrsiau'n rhai arbennig. Mae cynnwys y cwrs yn canolbwyntio ar y myfyrwyr, ac mae cydnabod cyflawniadau yn un o'r blaenoriaethau pennaf.

Mae'r cwricwlwm amgen ar gyfer y grwpiau a unodwyd yn cynnwys gwaith sylfaenol ym maes medrau cyfathrebu, rhifedd a gwyddoniaeth. Darperir addysg bersonol a chymdeithasol, ynghyd â nifer o elfennau dewisol ar gyfer y myfyrwyr, gan gynnwys:

- TG neu ddrama;
- astudiaethau cerbydau modur neu gelf;
- hanes neu addysg trafnidiaeth; ac
- adeiladu, trin gwallt a harddwch, neu fedrau byw.

Darperir y sesiynau gan staff yr ysgol wedi eu dewis yn ofalus, a chânt gymorth effeithiol y gwasanaeth ieuenctid.

Yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn

Mae llwyddiant y cynllun yn amrywiol. Dywed yr ysgol fod y dull gweithredu yn llwyddiannus iawn gydag o leiaf hanner y myfyrwyr dan sylw. Mae wedi denu rhai nad ydynt yn mynychu i'r ysgol, a gwelwyd gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n chwarae triwant. Mae'r ysgol wedi cael ychydig adborth cadarnhaol gan y myfyrwyr.

Fodd bynnag, mae'r ysgol yn cydnabod hefyd fod y fenter wedi methu â gwella cymhelliant na newid agweddau rhai myfyrwyr. Mae'n eglur bod cychwyn menter o'r fath ym Mlwyddyn 10 yn rhy hwyr, oherwydd bod agweddau anniddig ac arferion o beidio â mynychu wedi gafael yn y disgyblion erbyn yr amser hwn. Mae'r ysgol yn cydnabod bod rhai myfyrwyr yn 'manteisio' ar yr awyrgylch addysgu mwy hamddenol a gaiff ei greu.

Mae'r fenter yn ddewis costus i'r ysgol, ond gallai datblygiadau yn y dyfodol gynnwys cynllun tebyg a reolir ar y cyd rhwng nifer o ysgolion cyfun lleol. Byddai'r datblygiadau hyn:

- yn anelu at ddisgyblion sy'n barhaol yn peidio â mynychu;
- yn canolbwyntio ar sicrhau bod y disgyblion hyn yn dychwelyd i'r ysgol;
- yn paratoi man ar gyfer y disgyblion hyn yr ysgol;
- yn cynnwys dull gweithredu hollol wahanol; ac
- yn paratoi cyrsiau sy'n haws i'w dilyn.

AALl 1: Delio â phroblemau'n ymwneud ag ymddygiad, presenoldeb ac anfodlonrwydd mewn ffordd eang

Mae hwn yn AALl sy'n cynnwys 160 o ysgolion a gwasanaeth cymorth ymddygiad sy'n cynnwys tîm o 50 o staff.

Sut y defnyddiodd yr AALl hwn arian GCAH:

- Gwariwyd arian canolog gan GCAH ar gyfer ymddygiad ar gynorthwywyr cymorth ymddygiad (CCY) a'r prosiect Hyrwyddo Addysg Plant y Gofelir Amdanynt (PLACE);

- Gwariwyd arian canolog GCAH ar gyfer presenoldeb ac ymddygiad ar amrywiaeth o fentrau i gynnig cymorth i ysgolion cynradd; a

- Dirprwywyd llawer o'r arian GCAH i'r ysgolion uwchradd.

1. Cynorthwywyr cymorth ymddygiad ac athrawon cymorth ymddygiad

Mae tri chynorthwy-ydd cymorth ymddygiad am y tro cyntaf eleni. Dangosodd arolwg bodlonrwydd fod yr ysgolion yn gwerthfawrogi eu gwaith yn fawr iawn. Bydd pob cynorthwy-ydd yn treulio hanner diwrnod ym mhob ysgol, gan fonitro a helpu gyda rhaglenni ar gyfer disgyblion unigol, er enghraifft, eu haddysgu sut i chwarae, neu gynnal rhaglenni cymorth ymddygiad a baratowyd gan athro cymorth ymddygiad. Oherwydd llwyddiant y cynllun peilot, mae'r AALl wedi gwneud cais am bum cynorthwy-ydd cymorth ymddygiad arall, a chronfeydd yr AALl yn talu amdanynt. Yn ogystal, ceir pedwar athro cymorth ymddygiad ar gyfer ysgolion cynradd a thri athro cymorth ymddygiad ar gyfer ysgolion uwchradd.

2. Prosiect PLACE (Hyrwyddo Addysg Plant y Gofelir Amdanynt)

Mae hwn yn cynnwys tri athro sy'n gweithio gyda phlant y gofelir amdanynt mewn pedwar cartref cymunedol. Maent yn ceisio cynnig cymorth i blant y gofelir amdanynt mewn lleoliadau ysgolion prif ffrwd. Bydd yr athrawon PLACE yn cysylltu ag athrawon cymorth ymddygiad mewn ysgolion.

Mewn un cartref cymunedol, caiff pob un o'r saith disgybl eu cynnal mewn lleoliadau addysg oherwydd cymorth yr athrawon PLACE. Mae'r cysylltiadau a ddarperir rhwng y gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, a'r ymyrryd cynnar pan unodir trafferthion, yn hanfodol. Maent yn llwyddo i sicrhau bod holl blant y cartref y gofelir amdanynt naill ai mewn addysg amser llawn neu ar raglenni cwricwlwm amgen lle gall y plant gysylltu ag athro PLACE am gymorth.

Dyma enghraifft o waith yr athrawon PLACE.

Roedd gan un o'r plant y gofelir amdanynt broblemau yn yr ysgol. Dyma a wnaeth yr athro PLACE:

- ymweld â'r ysgol i drafod presenoldeb parhaus yn yr ysgol;
- cynnig cymorth i'r disgybl mewn rhai gwersi;
- tynnu'r disgybl allan o rai gwersi ar gyfer sesiynau unigol gydag ef ar reoli ymddygiad;
- darparu gwobrau; a
- rhoi gwybodaeth i'r athrawon prif ffrwd am broblemau'r disgybl.

Yn ogystal, bydd athrawon PLACE yn helpu plant y gofelir amdanynt i ddod o hyd i leoliadau cwricwlwm amgen, neu leoliadau mewn colegau addysg bellach. Byddant yn trefnu cyfweliadau gyrfa os nad yw disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd. Pan fydd disgyblion yn gadael yr ysgol, bydd yr athro PLACE yn parhau i gysylltu â nhw a chynnig cymorth iddynt.

Mae staff PLACE yn gwneud rhywfaint o waith ataliol hefyd gyda phlant sy'n byw gartref ond sydd mewn perygl o fod ag angen gofal maeth. Maent yn helpu annog disgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol i wneud hynny.

3. Cymorth i ysgolion cynradd

Cynhaliodd y gwasanaeth lles addysg a Theatr Spectacle fenter ar y cyd o'r enw 'Speak Out', a oedd yn cynnwys drama agored am fwlio o'r enw 'Good for Nothing'. Ariannwyd hon yn rhannol gan arian GCAH, ac yn rhannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Cafodd deg ar hugain o ysgolion cynradd eu cynnwys, a bydd pob disgybl yn cael pecyn mynychu.

Cynhaliodd tîm y prosiect weithdai triwantiaeth ym mhob ysgol gynradd. Darparwyd llyfr gwaith ganddynt am driwantiaeth a oedd yn delio ag agweddau gwahanol ar y broblem, a rhoddwyd gwybodaeth i ddisgyblion ynghylch y peryglon a'r gofynion cyfreithiol. Mae pecyn deniadol yn cynnwys llyfryn lliwgar sydd wedi'i gynllunio'n dda ar gyfer rhieni, bathodynnau gyda'r arwyddair 'It's cool to be in school', dalen-nodau, llyfryn am gyfeillgarwch, taflen gan y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant ar fwlio, a beiros.

Bydd pob disgybl ym Mlwyddyn 6 yn ymweld â'r 'Safle Diogelwch' yn Nhrefforest.

4. Y prosiect trosglwyddo

Prosiect yw hwn sy'n ceisio gwella cyfraddau presenoldeb.

- Bob blwyddyn, mae'r prosiect yn cynnwys tair ysgol gyfun wahanol a'u hysgolion cynradd cysylltiedig. Mae'r prosiect yn targedu disgyblion y mae eu presenoldeb yn is na 80%. Dewisir ysgolion gwahanol bob blwyddyn.

- Caiff disgyblion eu hunodi ym Mlwyddyn 5, a dilynir eu cynnydd trwy Flwyddyn 6 a than y Nadolig ym Mlwyddyn 7.

- Ymwelodd swyddog y prosiect â theuluoedd yn ystod gwyliau'r haf gan siarad â nhw am driwantiaeth. Byddai'n ymweld â'r ysgol ddwy neu dair gwaith yr wythnos, ac ymweld wedyn â'r teuluoedd. Bydd yr ysgol yn anfon llythyr at y rhieni bob hanner tymor i ganmol gwelliannau, a'u hysbysu am unrhyw dystysgrifau neu wobrau.

5. Y prosiect cynllun chwarae

Cychwynnwyd cynllun chwarae wedi ei ariannu gan GCAH ac a drefnir gan yr athro cymorth ymddygiad ym mis Medi. Bydd cynorthwy-ydd cymorth ymddygiad yn darparu un sesiwn chwarae amser cinio ym mhob ysgol, sy'n cynnwys chwarae gemau gyda disgyblion a dargedwyd, fel arfer mewn rhan o'r iard chwarae ar wahân. Maent yn canolbwyntio ar chwarae gemau gweithredol sy'n rhoi ffocws ar addysgu disgyblion sut i chwarae'n gymdeithasol, dilyn confensiynau a chymryd eu tro.

6. Mentrau mewn ysgolion uwchradd

Dyrannwyd £4,000 yr un i'r ysgolion uwchradd, a gwariodd y rhan fwyaf ohonynt yr arian ar gynlluniau ymateb ar y diwrnod cyntaf er mwyn gwella presenoldeb. Fodd bynnag, mae dwy ysgol uwchradd wedi datblygu mentrau mwy anarferol. Llwyddodd un ysgol i sicrhau arian Amcan Un i gynnal cwricwlwm amgen ar gyfer Blynyddoedd 9 i 11, ond gan gychwyn ar y gwaith hwn gyda chymorth £11,000 o arian GCAH. Penderfynodd ysgol arall ddatblygu gwasanaeth cynghori gan ddefnyddio £15,000 o arian GCAH, a dalodd am athro rhan-amser i ryddhau athro arall, sydd wedi ei hyfforddi'n gynghorydd.

Yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn

O ganlyniad i'r mentrau cyfunol hyn:

- gostyngwyd nifer yr achosion o ddiarddel parhaol o 54 ym 1996 i chwech hyd yn hyn yn 2002, sydd lawer yn is na tharged CCC o 19;

- mae 120 o ddisgyblion ar leoliadau cwricwlwm amgen yng nghyfnod allweddol 4, mae 35 mewn colegau addysg bellach, mae 60 mewn darpariaeth addysg gymunedol, a'r gweddill yn cael profiad gwaith;

- ar gyfer pob ysgol gyfun a'i hysgolion cynradd cysylltiedig, cynhelir cyfarfod bob hanner tymor o Banel Adolygu Disgyblion aml-asiantaeth. Arweinir y panel hwn gan swyddog AALl uwch, ac mae'n gallu unodi problemau'n gynharach;

- yn y prosiect trosglwyddo, mae'r ffigurau a ddarparwyd gan swyddog y prosiect yn dangos amrywiadau o un flwyddyn prosiect trosglwyddo i'r nesaf, ond yn y mwyafrif gwelwyd gwelliant ar gyfartaledd o 7% o leiaf yng nghyfraddau presenoldeb Blwyddyn 7, o'u cymharu â phresenoldeb yr un disgyblion ym Mlwyddyn 6. Llwyddodd rhai grwpiau i sicrhau mwy o welliant, gymaint â hyd at 13%. Llwyddodd disgyblion a gafodd gymorth o Flwyddyn 5 i wella'n gyffredinol fwy na'r rhai a gafodd gymorth o Flwyddyn 6. Y gwelliant isaf ar gyfartaledd oedd 4.6% ar gyfer y grŵp Blwyddyn 6 ym 1999; ac

- mae sesiynau'r cynllun chwarae yn helpu'r disgyblion a dargedwyd i ymddwyn yn well ac maent yn gwella'u medrau cymdeithasol. Mewn rhai ysgolion lle cynhelir y cynllun chwarae, mae'r goruchwylwyr yn yr iard chwarae wedi dechrau cyfranogi gan sylweddoli y gallant wneud mwy na gwarchod iard yr ysgol yn unig.

AALl 2: Prosiectau clwstwr o ysgolion i hyrwyddo cysondeb a pharhad

Lansiodd yr AALl hwn fenter tua dwy flynedd yn ôl i bennu rôl cydlynwyr ymddygiad yn ei holl ysgolion cynradd. Ffurfiwyd y fenter yn dilyn trafodaethau gyda phenaethiaid, gan ddatblygu'r strategaeth disgyblu cadarn a'r hyfforddiant a gynigir eisoes.

Sut y defnyddiodd yr AALl hwn arian GCAH

Mae'r AALl wedi defnyddio arian GCAH i gynnig cymorth i'r fenter a hyfforddi'r cydlynwyr. Yn ogystal, mae wedi darparu mwy o arian ar gyfer pob unigolyn a benodwyd i ymgymryd â'r rôl hwn. Ystyrir bod y cydlynydd ymddygiad ym mhob ysgol yn adnodd staff wedi ei hyfforddi'n dda sy'n gallu hyrwyddo gwell ymddygiad a chynnig cyngor ar faterion yn ymwneud ag ymddygiad a disgyblu cadarn.

Mae'r AALl wedi datblygu'r fenter hon ymhellach mewn un clwstwr o ysgolion mewn ardal sydd dan anfantais yn gymdeithasol, lle cytunodd pum ysgol sy'n delio â'r holl gyfnodau o'r cyfnod meithrin i gyfnod allweddol 4 i gydweithio. Cydnabu'r ysgolion eu bod yn rhannu'r un problemau ymddygiad disgyblion a oedd yn cael effaith niweidiol ar y cyfleoedd addysgu a dysgu a ddarperid. Cafodd yr holl staff yn y clwstwr hyfforddiant ym maes disgyblu i sicrhau dull gweithredu cyson mewn ystafelloedd dosbarth ac amgylcheddau eraill yn yr ysgol. Hyfforddwyd y cydlynydd ymddygiad ac aelod arall o'r staff ym mhob ysgol i fod yn hyfforddwyr disgyblu cadarn, ac o ganlyniad maent yn gallu sicrhau y gall pob aelod o'r staff fanteisio'n gyson ar arbenigedd yn eu hysgol. Pennir amser i ffwrdd o'r dosbarth i bob cydlynydd ymddygiad i ymgymryd â'r rôl hwn yn effeithiol.

Mewn un ysgol, trefnir diwrnod llawn i ffwrdd o'r dosbarth bob wythnos ar gyfer y cydlynydd ymddygiad. Talwyd am hyn gan gyllideb yr ysgol a grant gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Yn ystod y diwrnod i ffwrdd o'r dosbarth, bydd y cydlynydd yn ymgymryd ag ystod o waith gan gynnwys:

- ymweld â phob dosbarth yn yr ysgol ac archwilio patrymau ymddygiad disgyblion;
- gwobrwyo disgyblion sydd wedi ymddwyn yn dda;
- anfon llythyron at rieni y plant sydd wedi camymddwyn;
- trefnu apwyntiadau i gyfarfod â rheini i ddelio â materion yn ymwneud ag ymddygiad gwael ymysg disgyblion;
- darparu hyfforddiant ar gyfer staff cymorth drwy'r ysgol; a
- chyfarfod â chydlynwyr ymddygiad o ysgolion eraill yn y clwstwr.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno system ddisgyblu sy'n cynnwys pob aelod o'r staff, gan gynnwys staff cymorth a goruchwylwyr amser cinio, er mwyn ymgorffori dull gweithredu cyson. Mae rhieni yn deall ac yn cefnogi dull gweithredu'r ysgol tuag at ddisgyblu, ac maent wedi cymryd rhan gadarn fel partneriaid yn y broses. Cynigir cyngor iddynt ar faterion yn ymwneud ag ymddygiad a byddant yn cyfarfod y cydlynydd ymddygiad yn rheolaidd. Caiff disgyblion eu hannog i ymddwyn yn dda, ac maent hwy hefyd yn deall ac yn cefnogi'r broses a weithredir. Pan fydd disgyblion yn ymddwyn yn dda, cânt eu gwobrwyo â thystysgrifau a thalebau y gallant eu defnyddio mewn siopau. Pan fydd disgyblion yn camymddwyn, maent yn deall y bydd y cydlynydd ymddygiad yn trafod eu hymddygiad gyda'u rhieni. Mewn gwirionedd, mewn rhai achosion, mae disgyblion sydd wedi camymddwyn wedi ffonio'u rhieni i esbonio'r hyn a wnaethant. Ar brydiau, pan fydd ymddygiad disgybl yn arbennig o wael, rhaid i'r rhieni fynd o amgylch yr ysgol gyda'u plentyn am ran o ddiwrnod ysgol.

Yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn

Mae'r strategaeth hon yn cael effaith gadarnhaol iawn. Mae'r ysgol yn amgylchedd tawel a threfnus a'r lefelau presenoldeb yn dda. Mae'r staff yn teimlo bod mecanweithiau cymorth yn yr ysgol ar gyfer athrawon a disgyblion, a cheir dull gweithredu cyson tuag at ddisgyblu. Mae staff, disgyblion a rhieni'n ymwneud â'r broses ddisgyblu ac mae hyn wedi bod yn hanfodol i'w llwyddiant.

Y sialens ar gyfer y dyfodol yw cynnal lefel yr amser i ffwrdd o'r dosbarth sydd ar gael i'r cydlynydd ymddygiad er mwyn cynnal y lefel uchel o gymorth ar gyfer y fenter yn yr ysgol.

AALl 3: Cynnwys rhieni disgyblion ysgol gynradd

Sut y defnyddiodd yr AALl hwn arian GCAH

Yn yr AALl hwn, ffurfiwyd y Prosiect Peilot Disgyblu Cadarn ar gyfer ysgolion cynradd ym 1998. Mae'r strategaeth yn ymwneud â chynnig hyfforddiant ar gyfer rhai o staff yr ysgol a rhai staff canolog i fod yn arweinwyr, ar gyfer pob athro a staff cymorth mewn ysgolion prosiect, ac ar gyfer rhieni ym mhob ysgol sy'n cynnwys dosbarthiadau cyfnod allweddol 1. Fel arfer, caiff y rhai dan sylw eu hyfforddi yn ystod dau ddiwrnod llawn yn eu swydd, er bod rhai wedi manteisio ar sesiynau hyfforddi wythnosol gyda'r hwyr.

Mae'r AALl yn hyrwyddo'r un dull gweithredu tuag at ddisgyblu yn ei holl ysgolion. Mae i'r fenter nifer o fanteision:

- mae'n darparu methodoleg gyffredin ac iaith gyffredin y gall staff cymorth ei defnyddio i drafod materion yn ymwneud ag ymddygiad disgyblion gydag ysgolion;
- bydd disgyblion sy'n symud o ysgol i ysgol yn gweld bod eu hymddygiad yn cael ei reoli mewn ffordd debyg;
- nid oes yn rhaid i athrawon a chynorthwywyr cymorth sy'n symud o un ysgol i ysgol arall fabwysiadu systemau a dulliau newydd o reoli ymddygiad;
- cyflwynwyd goruchwylwyr amser cinio i'r system; a
- chaiff rhieni wybod am y dull gweithredu disgyblu cadarn trwy gyfrwng pecyn hyfforddi o'r enw 'Ymdopi â Phlant'.

Mae datblygu'r dull gweithredu hwn sy'n cynnwys dau lwybr, gan hyfforddi ysgolion a rhieni, wedi bod yn llwyddiannus. Mewn un ysgol, mae ffocws y fenter wedi bod ar yr ysgol gyfan, gan gynnwys y rhieni hefyd. Bydd disgyblion yn ymrwymo i 'Reolau Aur' a chaiff disgwyliadau eglur o ymddygiad da eu darparu ar eu cyfer.

Mewn ysgol arall lle cydnabuwyd bod ymddygiad y disgyblion yn wael, mae'r hyfforddiant a'r strategaeth ddisgyblu cadarn wedi arwain at nifer o ddatblygiadau eraill. Gofynnwyd i ddisgyblion, athrawon a rhieni am eu barn am yr hyn a oedd yn gweithio'n dda yn yr ysgol, a'r hyn nad oedd yn gweithio'n dda. Mae'r ysgol wedi defnyddio'r wybodaeth hon fel rhan o'i hunan-arfarniad. Mae wedi ymgorffori rhai newidiadau i ymateb i'r adborth a gafodd. Yn arbennig, ffurfiwyd cyngor ysgol sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac sy'n awgrymu gwelliannau. Mae rhai disgyblion sy'n aelodau o'r cyngor bellach yn 'atalwyr trwbl' ac yn gweithredu fel mentoriaid a chyfryngwyr i eraill. Mae disgyblion a allai fod â phroblemau, yn gwybod y gallant eu trafod gydag 'ataliwr trwbl'.

Yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn

Mae profiad yr AALl o ddisgyblu cadarn yn arwain at gymorth mawr yn yr ysgolion dan sylw. Mae ei strategaeth ar gyfer rheoli ymddygiad yn gydlynol, yn ymarferol ac yn darparu dilyniant rhwng staff, ysgolion a gwahanol gyfnodau addysgol. Cafodd strategaeth yr AALl y llwyddiant mwyaf mewn ysgolion lle mae pob aelod o'r staff, gan gynnwys staff cymorth a rhieni, yn rhan o'r gwaith, a lle darperir cymorth wrth gefn gan dîm aml-ddisgyblaeth o weithwyr cymorth allanol.

Mae gwobrau am ymddygiad da yn annog disgyblion i ymddwyn yn dda. Mae'r strategaeth wedi gwella'r ethos, lleihau'r angen i weiddi, lleihau nifer y problemau amser cinio, ac wedi rhoi ffocws i'r holl ddisgyblion a'r staff ar ymddygiad da.

Cafodd cyfranogiad rhieni effaith gadarnhaol. Yn ystod cyfarfodydd, roedd rhieni'n aml yn synnu clywed bod rhieni eraill wedi cael yr un problemau ymddygiad gyda'u plant nhw. Fel strategaeth hunan-gymorth, mae rhai rhieni wedi ffurfio'u grwpiau cyfeillgarwch eu hunain, sy'n cyfarfod yn yr ysgol bob wythnos.

Mae'r strategaeth 'atal trwbl' wedi helpu disgyblion i adnabod problemau a gwahaniaethu rhwng yr hyn y gallant nhw ddelio ag ef eu hunain a'r hyn y gall fod angen iddynt ei gyfeirio i athro.

Adran 5: Casgliadau

Casgliad 1. Elfennau cyffredin yn y mentrau

Mae'r holl brosiectau a'r mentrau y mae ysgolion ac AALlau wedi'u datblygu gyda chymorth arian GCAH, ynghyd ag arian o ffynonellau eraill, yn cydnabod yr effaith niweidiol fawr y gall presenoldeb gwael, problemau ymddygiad ac anfodlonrwydd cyffredinol ag addysg ei chael ar ddysgu disgyblion, eu hagweddau at ddysgu ac ar eu safonau cyflawniad. Yn ogystal, gall y ffactorau hyn ddylanwadu ar ddysgu a chyflawniad disgyblion yn y dyfodol, eu medrau rhyng-bersonol ac ansawdd eu cyfraniad i fywyd cymunedol ar ôl iddynt adael addysg statudol amser llawn.

Casgliad 2. Ffyrdd effeithiol o ddelio â'r problemau

Mae'r AALlau a'r ysgolion unigol mwyaf effeithiol yn cyflwyno pecyn cyfan o fesurau i ddelio ag anfodlonrwydd, problemau ymddygiad a phresenoldeb isel, ac i hyrwyddo cynhwysiad. Mae hyn oherwydd eu bod yn cydnabod y berthynas sy'n aml yn bodoli rhwng yr agweddau hyn, ynghyd â'r angen i ddelio â nhw gyda'i gilydd mewn nifer o ffyrdd. Defnyddiant gyllid GCAH yn ddoeth ar y cyd â ffynonellau cyllid eraill i wneud hyn yn bosibl.

Casgliad 3. Targedu arian GCAH lle y mae'r angen mwyaf

Ar y cyfan, caiff yr arian ei dargedu'n dda i gynnig cymorth i'r ysgolion a'r disgyblion hynny y mae angen eu gwella fwyaf. Cyflwynir maes o law rai mentrau llwyddiannus mewn ysgolion eraill a allai fod yn wynebu'r un trafferthion. Ar sail problemau cyffredin a unodwyd, er bod hyn gyda nifer fach iawn o ddisgyblion mewn rhai ysgolion, ystyrir bod rhai mentrau'n ddefnyddiol i bob ysgol yn yr AALl. Pan ddigwydd hyn, gwahoddir staff i ymgymryd â'r hyfforddiant perthnasol i'w paratoi ar gyfer ymgorffori neu addasu'r strategaeth yn eu hysgolion eu hunain.

Casgliad 4. Defnyddio arian GCAH i ddelio ag achosion sylfaenol ymddygiad a phresenoldeb gwael

Defnyddiwyd arian GCAH yn effeithiol i geisio delio ag achosion sylfaenol aniddigrwydd, ymddygiad a phresenoldeb gwael, yn ogystal ag i dargedu disgyblion ac ysgolion y mae angen cymorth arnynt yn syth. Mae nifer o AALlau ac ysgolion wedi ystyried cynnwys y cwricwlwm, arddulliau addysgu a dysgu emosiynol disgyblion yn ofalus er mwyn newid agweddau ar eu darpariaeth y credir eu bod wrth wraidd y broblem gyda rhai disgyblion yn y system. Mae hwn yn ddull gweithredu cadarnhaol ac ymarferol sy'n cyd-fynd yn effeithiol â'u hymateb gweithredol i broblemau cyfredol ymhlith unigolion a grwpiau.

Casgliad 5. Dylanwad y dull gweithredu aml-asiantaeth

Mae'r dull gweithredu aml-asiantaeth tuag at ddelio â thrafferthion yn ymwneud ag ymddygiad, presenoldeb ag agwedd disgyblion yn llwyddiannus iawn, er ei fod yn aml yn anodd ei drefnu a'i gynnal. Mae gwybodaeth arbenigol unigolion ac asiantaethau sy'n gweithio gydag ysgolion AALlau yn darparu amrediad o ddewisiadau amgen i sicrhau bod pobl ifanc yn parhau yn y system ac yn cael cymorth effeithiol ar adegau hollbwysig.

Casgliad 6. Gweithio gyda disgyblion yn unigol ac mewn grwpiau bach

Mae ysgolion ac AALlau yn cydnabod bod hunan-barch nifer o ddisgyblion sy'n anfodlon â byd addysg, sy'n mynychu'r ysgol yn ysbeidiol ac sy'n ymddwyn yn wael, yn aml yn wael a bod ganddynt ddelwedd wael ohonynt eu hunain. Yn yr achosion hyn, defnyddiwyd arian GCAH yn dda i ddarparu sesiynau unigol ac mewn grwpiau bach ar gyfer y disgyblion hyn, yn aml gyda chymorth gweithwyr ieuenctid neu Gynorthwywyr Cymorth Ymddygiad. Prif nod y sesiynau hyn yw gwella cymhelliant disgyblion a'u hail-integreiddio'n llwyddiannus mewn addysg prif ffrwd, neu ddod o hyd i lwybrau amgen iddynt sicrhau llwyddiant. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn elwa o'r ddarpariaeth hon, a bydd rhai'n ail-ymuno ag addysg prif ffrwd. Fodd bynnag, mae'r raddfa lwyddo yn uwch ymhlith disgyblion iau na disgyblion hŷn.

Casgliad 7. Targedu grwpiau penodol o ddisgyblion

Mae rhai prosiectau'n llwyddo i dargedu grwpiau penodol o ddisgyblion (er enghraifft, 'PLACE' a 'Nurture') gan sicrhau canlyniadau da. Mae rhai o'r disgyblion sy'n manteisio ar y prosiectau hyn ymhlith y plant a'r bobl ifanc yn ein cymdeithas sydd fwyaf agored i niwed.

Casgliad 8. Ysgolion yn cydweithio

Gall delio â phroblemau yn ymwneud ag ymddygiad a mynychu gymryd llawer o amser i athrawon ac ysgolion. Gall ysgolion sy'n cydweithio rannu costau, hyfforddiant, arbenigedd ac adnoddau, a defnyddio'u hamser mewn ffordd fwy effeithlon. Mae mentrau ar draws ysgolion ac ar draws cyfnodau yn gallu hyrwyddo cysondeb a pharhad strategaethau a disgwyliadau hefyd, er mwyn gwella presenoldeb ac ymddygiad disgyblion dros nifer o flynyddoedd, ac yn arbennig pan fydd disgyblion yn trosglwyddo o un ysgol i ysgol arall.

Casgliad 9. Gweithio gyda rhieni

Mae gweithio gyda rhieni i wella presenoldeb ac ymddygiad disgyblion wedi bod yn nodwedd werthfawr mewn rhai prosiectau.

Adran 6: Argymhellion

Argymhelliad 1: I sicrhau cynnydd pellach wrth wella presenoldeb ac ymddygiad mae angen delio â chynnwys y cwricwlwm, arddulliau addysgu, ethos dosbarthiadau, a dysgu emosiynol disgyblion mewn ystod eangach o ysgolion ar draws pob AALl.

Argymhelliad 2: Mae angen targedu pob math o brosesau ymyrryd cadarnhaol cyn gynted â phosibl pan welir yr arwyddion cyntaf o aniddigrwydd.

Argymhelliad 3: Mae angen ariannu prosiectau dros gyfnod hwy i ddenu a chadw staff profiadol ac o ansawdd uchel. Mae cynaladwyedd yn aml yn broblem. Mae angen i'r prosiectau gael eu gweithredu mewn cynllun hir dymor wedi'i ddiffinio'n dda er mwyn delio ag aniddigrwydd ymhlith disgyblion, a'r problemau cysylltiedig sy'n ymwneud ag ymddygiad a phresenoldeb.

Argymhelliad 4: Mae angen i ragor o ysgolion gydweithio i ddelio â phroblemau yn ymwneud â phresenoldeb ac ymddygiad er mwyn rhannu gwybodaeth arbenigol a chostau, a defnyddio'u hamser mewn ffordd fwy effeithlon. Yn arbennig, gall ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n cydweithio gyflwyno dull gweithredu mwy cyson a pharhaus.

Argymhelliad 5: Mae gweithio gyda rhieni i wella presenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn agwedd y mae angen ei datblygu ymhellach a'i chynnwys mewn mentrau eraill gan AALlau ac ysgolion ble bynnag y bydd yn bosibl.